# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 14/02/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Lleucu Jones | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Carys Roberts |
| Caren Jones | Gito Williams | Janice Evans | Gwynfor Jones | Mared Llywelyn Williams |
| Alaw Llewelyn Roberts | Rhys Llewelyn | Pat Humphreys (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Gareth Jones a Rhian Sanson.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 10/01/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Ebost Dŵr Cymru.**
   Mae'r clerc wedi derbyn ebost gan Dŵr Cymru yn dweud na fyddent yn derbyn sieciau o'r 30ain o Ebrill 2023 ymlaen ac yn rhestru'r dulliau eraill o dalu.
   Penderfyniad: talu drwy debyd uniongyrchol unwaith y flwyddyn.
   Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Catrin Roberts
   **Baneri Ambiwlans Awyr.**
   Mae'r aelodau wedi cytuno i archebu 3 baner Ambiwlans Awyr ac mae'r clerc angen gwybod ble maent eisiau eu gosod yn y tri pentref.
   Penderfyniad: Nefyn – ar y railings yn Y Groes, Morfa Nefyn – ar y ffens yn Cae Coch, Edern – ar Y Bont.
   **Mynwent Nefyn – diweddariad – Arfon Hughes**
   Cafwyd diweddariad ar ôl i'r Is-bwyllgor Mynwentydd gyfarfod ym mynwent Nefyn i drafod cael gwared o'r eiddew oddi ar y beddi. Bu cyfarfod rhwng tri aelod o'r Is-bwyllgor â'r contractwr torri gwellt y fynwent ac fe gytunodd i gymeryd y gwaith ychwanegol yma ymlaen a cychwyn cyn gynted a phosibl. Tra yn y fynwent gwelwyd fod ochrau rhai o'r hen feddi wedi disgyn felly fe fydd angen penderfynnu beth i'w wneud ynglŷn â hyn hefyd mewn amser.
   Dywedodd yr aelod lleol ei fod wedi derbyn cwyn bod pwll dŵr yn hel yn y rhan o'r llwybr sydd wedi cael ei ail wynebu fel rhan o'r gwaith ar yr estyniad newydd felly mae un o'r aelodau am fynd i'r fynwent hefo'r aelod lleol i'w weld ar ôl iddi fwrw glaw trwm.
   Dywedodd y cadeirydd bod aelod o'r cyhoedd wedi diolch i CTN am wneud yr estyniad i'r fynwent ac yn canmol y gwaith.

5. **Sedd Wag**
   Nid oes enw wedi cael ei dderbyn yn dilyn y cyfnod hysbysebu ac mae'r hysbyseb yn dal i fyny yn Siop Siarad ac ar wefan CTN.
   Penderfyniad: gadael yr hysbysebion i fyny a'r aelodau i drio meddwl am rhywun addas.

6. **Ffurfio Is-bwyllgor Blodau ar gyfer yr Eisteddfod**
   Mae angen ffurfio Is-bwyllgor cyn gynted a phosibl gan fod yna gymaint o waith paratoi i'w wneud cyn yr Eisteddfod. Danghosodd 7 aelod ddiddordeb mewn bod ar yr Is-bwyllgor a cytunodd bawb i gyfarfod yn Siop Siarad nos Iau 23ain o Chwefror am 7yh. Addawodd aelodau eraill i helpu allan gyda'r dyfrio er nad ydynt ar yr Is-bwyllgor.

7. **Clwb Ieuenctid –** diweddariad
   Mae'r clerc wedi siarad hefo Andrew Owen ac mae o yn fodlon dod i Nefyn i gynnal Clwb Ieuenctid o fis Medi ymlaen am gyfnod o tua 12 wythnos ond ar ôl siarad hefo Cyngor Gwynedd y flwyddyn diwethaf nid oeddent yn fodlon hefo hynny ond yn hytrach fe fyddai rhaid cael Clwb Ieuenctid am 30 wythnos o'r flwyddyn fel ac yr oedd o'r blaen.
   Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i weld os oes posibilrwydd cael Andrew Owen i redeg y Clwb Ieuenctid am gyfnod o 12 wythnos yn unig yn cychwyn o fis Medi 2023.

8. **Penodi cynrychiolydd CTN ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Edern**
   Mae un o aelodau Edern wedi rhoi ei enw ymlaen ac mae'r Ysgol wedi ei dderbyn.

9. **Y Llyfrgell – cais i gael gwared a'r toiled staff** – diweddariad
   Nid yw'r ddau aelod wedi cael cyfle i fynd i'r Llyfrgell eto i weld beth sydd angen ei wneud yno ond maent am fynd cyn ddiwedd yr wythnos.

10. **Prynu cwpwrdd i arddangos y rhoddion o'r Ariannin**
    Mae un o'r aelodau wedi bod yn edrych am gwpwrdd ar y we ond nid oes unrhyw beth addas i'w gael yno felly mae'r aelod am baratoi briff a'i yrru i'r clerc iddi gael prisiau gan seiri coed lleol i wneud cwpwrdd.

11. **Trwsio 'Groins' ar draeth Morfa –** Gito Williams
    Mae un o'r aelodau wedi sylwi fod y 'groins' ar draeth Morfa wedi malu ac angen eu trwsio.
    Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Adran Forwrol Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt eu trwsio.
    Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

12. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Cylch Meithrin Edern –** Cais am gyfraniad ariannol – gwybodaeth ychwanegol.
  Derbyniwyd ebost yn rhoi mwy o eglurhad ynglŷn â'r costau am yr offer angenrheidiol i'r Cylch Meithrin.
  Penderfyniad: Cyfrannu'r £650.00 sydd ei angen arnynt.
  Cynnig: Caren Jones  Eilio: Gruffydd Williams
- **Ebost Cyngor Cymuned Llanbedrog –** cais am gefnogaeth i'r broblem llifogydd ar yr A499 rhwng Llanbedrog a Pwllheli.
  Penderfyniad: Cefnogi Cyngor Cymuned Llanbedrog a gyrru llythyr i gwyno am y llifogydd.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

- **Ebost O Ddrws i Ddrws –** cais am ganiatad i gael defnyddio y Llyfrgell ar gyfer 'Llyfrgell y petha'.
  Penderfyniad: Cytuno mewn egwyddor i sefydlu Llyfrgell Pethau yn Nefyn ond bod CTN yn cael diweddariad rheolaidd.
  Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Carys Roberts

**13. Ceisiadau Cynllunio**

**APÊL – C22/0190/42/LL –** Caeau Capel Hotel, Rhodfa'r Môr, Nefyn – Newid defnydd ystafelloedd gwesty (dosbarth defnydd C1) i lety hunan gynhaliol (dosbarth defnydd C3).

Penderfyniad: Cadw at yr un sylwadau a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio cysylltiedig.

Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Gruffydd Williams

Ceisiadau Diweddarach

**14. Taliadau i'w gwneud**

Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:

- Cyflog y Clerc – £1118.38
- John Gwynfor Jones – Agor bedd Owen Medwyn Williams, Nellie Augusta Jones a Griffith Patrick Cowap - £1075.00
- A & T Jones – Trwsio ffenestr y Llyfrgell - £102.60
- Cliff Hughes – Taliad 9 cytundeb llwybrau - £1140.00
- David Ogilvie Engineering – 4 mainc - £4801.20
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £35.46
- HMRC – PAYE Mis 10 - £111.43
- D M Parry – Taliad 6 cytundeb mynwent Nefyn & gwaith ychwanegol - £950.00
- N Power – trydan y Llyfrgell mis Ionawr - £149.43
- Bacstal Pac – gwasanaeth cyflogau - £139.50

**Penderfyniad**: talu pob anfoneb.

Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Gwynfor Jones

15. **Taliadau wedi eu derbyn**

- Cyngor Gwynedd – ad-daliad cynnal a chadw llwybrau - £2757.62
- Osian Williams – rent cae mynwent Nefyn - £150.00
- Carol Jones – Gosod carreg fedd - £150.00